Rhedeg busnes o gartref

Rydyn ni yn Adra yn cydnabod bod mentrau a gaiff eu rhedeg o'r cartref yn gallu cael effaith gadarnhaol drwy gynyddu incwm a rhoi profiadau a sgiliau i bawb sy'n gysylltiedig.

Gweler isod ein canllaw byr i'ch helpu ar eich ffordd.

Mae yna lawer o fathau o fusnesau/masnach y gallwch chi fel deiliad contract (tenant) eu cynnal yn eich cartref, ond **RHAID** cael ein **caniatâd ysgrifenedig** yn gyntaf.

Beth mae defnydd busnes yn ei olygu?

- Creu rhywbeth neu ddarparu gwasanaeth sydd ddim ar eich cyfer chi neu eich teulu yn unig.
- Cael rhyw fath o daliad am eich cynnyrch neu wasanaeth.
- Masnach

Beth yw'r math rhesymol o fusnes i redeg o gartref?

Byddwn fel arfer yn rhoi caniatâd, cyn belled:

- nad yw eich busnes yn gallu achosi niwsans neu aflonyddwch i unrhyw gymdogion.
- nad oes unrhyw fyrddau hysbysebu nac arwyddion mawr/ymwthiol i'w gweld o'ch cartref
- eich bod yn cael ein **caniatâd ysgrifenedig** ar gyfer unrhyw welliannau neu addasiadau gofynnol mewn perthynas â'r busnes
- nad ydych yn defnyddio offer cynhyrchu ar raddfa fawr
- nad ydych yn cadw deunyddiau fflamadwy fel silindrau nwy propan neu fwtan
- eich bod wedi cael caniatâd cynllunio, trwyddedau neu gofrestriad sydd eu hangen
- nad ydych yn difrodi eich cartref
- nad yw eich busnes yn torri amodau eich contract.

adra.co.uk | 0300 123 8084 |
@adrataicyf | ymholiadau@adra.co.uk

Gall enghreifftiau o ddefnydd busnes rhesymol o'ch cartref gynnwys:

- gofal plant
- atgyweirio cyfrifiaduron/technoleg
- gwasanaethau glanhau
- gwaith gweinyddol
- gwneud/addurno teisennau
- busnes sy'n gysylltiedig â'r rhyngrwyd neu ffôn.

Cael caniatâd i redeg busnes o gartref - beth i'w wneud nesaf?

Bydd angen i chi wneud **cais ysgrifenedig** i redeg busnes o'ch cartref. Cwblhewch y Ffurflen gais Rhedeg busnes o gartref a'i dychwelyd atom yn brydlon. Am gopi o'r ffurflen gais cysylltwch â ni.

Pam bod angen i Adra wybod os ydach chi'n rhedeg busnes o'ch cartref?

- Mae angen i ni wneud yn siŵr bod y defnydd busnes yn rhesymol, hynny yw nad yw'n difrodi'r eiddo ac nad yw'n achosi niwsans nac annifyrrwch i'ch cymdogion.
- Byddwn yn asesu pob cais yn unigol.
- Os rhoddir caniatâd, gall fod gydag amodau.

NODYN - Ni ddylech ddechrau busnes/masnach o'ch cartref nes eich bod wedi cael caniatâd ysgrifenedig.

Tynnu caniatâd yn ei ôl

Mae gennym yr hawl i dynnu caniatâd yn ôl a roddir i redeg busnes o gartref a rhoi rhybudd rhesymol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am redeg busnes o gartref, mae croeso i chi gysylltu efo ni ac mi wnawn ni'n gorau i'ch helpu.

adra.co.uk | 0300 123 8084 |
@adrataicyf | ymholiadau@adra.co.uk